SEWR-05-02 (min)

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 22 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 9.30am - 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Lolfa'r Eisteddle, Clwb Rygbi Pontypridd |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Owen John Thomas (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |

| | |
|---|---|
| David Rhys Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Lynne Williams | Prif Weithredwr, Caerdydd 2008 |
| Yvette Vaughan Jones | Cyfarwyddwr Rhaglenni, Caerdydd 2008 |
| John Burrows | Rheolwr Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr dros dro, Canolfan Mileniwm Cymru |
| Ruth Taylor - Davies | Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Thwristiaeth, Cyngor Sir Merthyr Tudful |
| Gareth Newton | Cyfarwyddwr Adrannol - Dysgu Gydol Oes, Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Strinda Davies | Uwch-Swyddog Datblygu'r Celfyddydau, Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| David Newland | Cyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru (Y De) |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau am absenoldeb**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd ymweliad cyntaf y Pwyllgor Rhanbarth ag etholaeth Pontypridd. Diolchodd reolwyr clwb rygbi Pontypridd am gael defnyddio'u cyfleusterau ac am

eu cydweithrediad. Croesawodd gynrychiolwyr y cyrff a'r mudiadau amrywiol ac aelodau'r cyhoedd i gyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain a gwahoddodd Jane Davidson, AC yr etholaeth, i ddweud ychydig eiriau.

1.2 Estynnodd Jane Davidson groeso i bawb i etholaeth Pontypridd ac i'r clwb rygbi.

1.3 Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb gan Jocelyn Davies, Sue Essex, Mike German, Janice Gregory, Jane Hutt, Peter Law a Rhodri Morgan.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin SEWR-04-02 (min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 21 Mehefin.

**Eitem 3: Cyflwyniad ar gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Lynne Williams, Prif Weithredwr ac Yvette Vaughan Jones, Cyfarwyddwr Rhaglenni Caerdydd 2008 a'u gwahodd i siarad.
2. Agorwyd y cyflwyniad gydag esboniad o'r cefndir i gais Caerdydd am statws Prifddinas Diwyllant Ewrop 2008. Arferai fod yn gystadleuaeth am statws Dinas Diwylliant ond erbyn hyn mae'n gystadleuaeth am statws Prifddinas. Caiff statws Prifddinas Diwylliant Ewrop ei roi i ddinas yn y Deyrnas Unedig yn 2008.
3. Daeth 12 o geisiadau i law ac ar 30 Hydref, dewiswyd rhestr fer o 6. Bu Caerdydd yn llwyddiannus, ynghyd â Birmingham, Bryste, Lerpwl, Newcastle/Gateshead a Rhydychen. Disgwylir y canlyniad terfynol yng ngwanwyn 2003.
4. Thema cais Caerdydd yw 'Dangos imi le da' a bydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlynol:

- Ansawdd
- Canolfannau a mudiadau o fri rhyngwladol
- Gwaith cymunedol o safon byd.

Pwysleisiwyd bod y cais wedi'i wneud yn enw Cymru ac os y bydd yn llwyddiannus, bydd y wlad gyfan ynghlwm wrth y rhaglen a'i gweithgareddau.

1. I ddechrau, roedd yn anodd canolbwyntio ar 2008 wrth ddyfeisio'r rhaglen gan y bydd Caerdydd yn dathlu can mlynedd fel dinas a 50 mlynedd fel prifddinas yn 2005. Bydd dathliadau 2005 yn gyfle da i dreialu'r rhaglen a gweld beth sy'n gweithio/ddim yn gweithio pe bai Caerdydd yn digwydd ennill. Mae llawer o waith wedi'i wneud i weld beth mae pobl am ei weld yn y rhaglen. Ymgynghorwyd yn rheolaidd â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Pwyslais arall y rhaglen yw bod

pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn pethau fel chwaraeon, y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant ac i fod yn greadigol, yn ogystal â sicrhau ansawdd diwylliannol.

2. Er bod y rhaglen yn golygu cryn fenter, cafwyd cytundeb buan bod y gystadleuaeth yn bwysig iawn ledled yr UE, gyda'i phwyslais ar sut y bydd dinasoedd yn gweithio yn yr 21ain Ganrif, hynny o fewn UE ehangach. Y teimlad oedd y byddai wedi adlewyrchu'n wael ar Gaerdydd a Chymru pe na bai cais wedi'i wneud. Enillodd Glasgow statws Dinas Diwylliant ym 1990 ac o ganlyniad, gwelwyd ymrwymiad, adfywiad a chyfleoedd i ddatblygu diwydiannau diwylliannol. Buddsoddwyd yn drwm yn y ddinas. Teimlwyd y byddai Caerdydd a Chymru yn cael manteision tebyg pe bai'n llwyddiannus. Byddai yna fuddiannau eraill hefyd, gan gynnwys hwb i grwpiau cymunedol, mwy o ymwybyddiaeth o'n cyfoeth diwylliannol, sefydlu diwydiannau creadigol ifainc a datblygu diwydiannau a mentrau diwylliannol.
3. Gwnaeth yr aelodau gydnabod bod y prosiect yn un cyffrous a dymunwyd pob llwyddiant i Gaerdydd 2008 â'u cais. Teimlwyd ei bod yn bwysig ennyn brwdfrydedd y rheini na fyddai fel arfer yn ymhel â diwylliant. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae llawer o ardaloedd cynrychioliadol yn bell o Gaerdydd. Beth fydd cyswllt yr ardaloedd hyn â Chaerdydd?
- Gofynnwyd a fyddai gwerth i gais Caerdydd pe na bai'n llwyddiannus.
- Pwysleisiwyd bod yna fywyd diwylliannol byrlymus yng nghymoedd y de a chydnabuwyd y rhan y mae diwylliant yn ei chwarae yn y rhaglenni i adfywio cymunedau. Teimlwyd bod tuedd i ddiwylliant fod yn elitaidd a gofynnodd y panel sut yr oedd Caerdydd 2008 yn bwriadu mynd â diwylliant i bob rhan o'r gymuned.
- Faint o bwyslais oedd ar ddwyieithrwydd?
- Dadleuwyd o blaid hybu pensaernïaeth bresennol Caerdydd, yn enwedig yr enghreifftiau o bensaerniaeth Victoriaidd wych y mae mawr angen eu hadfer.
- Nid yw Caerdydd yn gannwyll llygad pob ardal yng Nghymru a gofynnwyd i'r panel sut oeddynt yn bwriadu mynd â buddiannau cais llwyddiannus i bob rhan o Gymru.
- A yw'r holl awdurdodau lleol yn gefnogol a pha gefnogaeth a gafwyd gan y wasg a'r cyfryngau o gofio'r hyn y gallent ei wneud i roi hwb i'r cais?
- Sut ydych chi'n bwriadu ennyn cefnogaeth pobl ifanc Cymru i'r cais ac i'w sbarduno i ddatblygu eu talentau? Mae llawer o ysgolion a cholegau yn gwneud gwaith gwych ond mae cyrff a mudiadau llwyddiannus yn dibynnu ar gefnogaeth pobl ifanc.

1. Wrth ateb, meddai cynrychiolwyr Caerdydd 2008:

- Mae elfen gymunedol ac addysgol yn perthyn i bob rhaglen. Defnyddiwyd nerth y berthynas gymunedol rhwng Caerdydd a'r cymoedd fel enghraifft o'r ffordd ymlaen. Mae rhwydweithio yn sylfaenol i'r cais.
- Os na fydd cais Caerdydd yn llwyddiannus, bydd y rhaglen yn cael ei chynnal yn ystod

dathliadau 2005.

- Nodwyd bod Caerdydd a Chymru yn rhanbarth dwyieithog a bod Caerdydd ei hun yn ddinas amlieithog. Dywedwyd bod hyn yn cyfoethogi ac yn dod ag amlochredd i'r cais.
- Gwerthfawrogwyd y pwynt ynghylch yr adeiladau presennol a dylid gwneud mwy o'r elfen hon o'n hanes diwylliannol.
- Ceir ymrwymiad i fynd â'r buddiannau i bob rhan o Gymru. Mae diddordeb aruthrol wedi'i fynegi, o Fôn i Fynwy.
- Mae awdurdodau lleol a swyddogion addysg yn arbennig wedi ymrwymo i gefnogi'r cais ac mae'r gwasanaeth ysgolion eisoes wedi gwneud llawer o waith. Cafwyd mwy o sylw yn y wasg a'r cyfryngau ers cyhoeddi canlyniad y rhestr fer.
- Mae fforwm ieuenctid wedi'i sefydlu i helpu i lywio trafodaethau. Sylweddolir ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc o bob oed yn cyfrannu at y broses.

39. Dywedodd y Cadeirydd bod pobl yn teimlo y dylai Caerdydd 2008 fynd ar ofyn awdurdodau y tu allan i Gaerdydd am gefnogaeth gan na all Caerdydd wneud y gwaith i gyd ar ei phen ei hun a bod yna ardal drefol eang a all fod yn gronfa o gymorth iddi.

**Eitem 4: Cyflwyniadau i ddangos sut y mae gweithgarwch diwylliannol wedi datblygu yn y rhanbarth.**

4.1 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i **John Burrows, Rheolwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr dros-dro Canolfan Mileniwm Cymru** i roi cyflwyniad. Amgaeir copi yn Atodiad 1.

4.2 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i **Ruth Taylor-Davies, Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Thwristiaeth Cyngor Sir Merthyr Tudful** i roi cyflwyniad ar waith Castell Cyfarthfa. Amgaeir copi yn Atodiad 2.

4.3 Yna estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i **Gareth Newton, Cyfarwyddwr Adrannol - Dysgu Gydol Oes a Strinda Davies, Uwch-Swyddog Datblygu'r Celfyddydau, Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf** i roi cyflwyniad. Gwnaethant gyflwyno'r pwyntiau canlynol:

- Mae diwylliant yn hanfodol i ansawdd bywyd ac mae diwylliant byrlymus ynddo'i hun yn ennyn twf.
- Nid mater o adeiladau a gwrthrychau yn unig yw diwylliant, mae pobl hefyd yn eiconau diwylliannol.
- Ni ddylid ystyried digwyddiadau diwylliannol fel pethau uchel-ael ond dylent fod o ddiddordeb i bob grwp ym mhob cymuned.
- Rhannodd Jenny Randerson, y Gweinidog Diwylliant, lwyfan yn ddiweddar â Pauline Jarman, Arweinydd RCT, pan lansiwyd Rhwydwaith Pobl Cymru mewn llyfrgelloedd gyda chymorth y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bu'n llwyddiant ysgubol a thrwyddo, mae casgliad hanes lleol yn Aberdar wedi'i roi ar gyfrwng digidol a'i wasgaru ledled y byd.

- Enghraifft arall o ddiwylliant lleol oedd tapestri mileniwm Cwm Cynon a symbylodd falchder mawr yn y cwm.
- Mae RCT wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r ddarpariaeth ddiwylliannol gyda chymorth grwpiau gwirfoddol a chymunedol, y gwasanaeth ysgolion, gwefan, seminarau a chyrsiau mewn colegau addysg bellach.
- Sylweddolir bod yn rhaid wrth bartneriaethau a rhwydweithiau i ddatblygu'r ddarpariaeth.
- Mae pobl ifanc yn ganolog i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a bydd sefydlu uned gwasanaethau diwylliannol newydd yn ehangu cyfleoedd i gymryd rhan ac yn ychwanegiad allgyrsiol pwysig i gyfoethogi cyfleusterau addysgol.
- Mae RCT yn ymwybodol hefyd bod gwaith i'w wneud i hybu diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau ac i ddatblygu partneriaethau.
- Bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ers caniatau mynediad am ddim, a gofynnwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried ymestyn y polisi i atyniadau eraill.

4.4 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyflwynydd olaf, **David Newland, Cyngor Celfyddydau Cymru (Y De)** a gofyn iddo roi ei gyflwyniad. Amgaeir copi yn Atodiad 3.

**Eitem 5: Sesiwn Meic Agored**

5.1 Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol a gofyn cwestiynau:

- Cytunwyd bod diwylliant yn allweddol i ddatblygiad yr economi.
- Mae Cymru'n enwog am ei thraddodiad cerddorol ond nid oes ganddi oriel ddigonol ar gyfer y celfyddydau gweledol. Beth yw'r sefyllfa o ran darparu un yn y dyfodol?
- Defnyddiwyd Castell Cyfarthfa i gynnal rhwydwaith hanes menywod. Gofynnwyd a oedd y rhwydwaith yn dal i fynd.
- A oes cynllun 'debenture' yn mynd i fod yng Nghanolfan Mileniwm Cymru?

2. Rhoddodd y panel yr atebion canlynol:

- Dywedodd y Gweinidog Diwylliant bod y Pwyllgor Diwylliant wrthi'n ystyried y trywyddau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar leoliad orielau yn y dyfodol. Y dewis oedd naill ai un oriel fawr neu nifer o orielau llai ledled Cymru.
- Nid yw'r rhwydwaith hanes menywod yn cyfarfod y dyddiau hyn ond cydnabuwyd ei fod yn bwnc sy'n rhan bwysig o'n treftadaeth a'r gobaith oedd ei atgyfodi.
- Cafodd Cynllun Urdd y Mileniwm ei lansio'n ddiweddar. Y syniad oedd bod unigolion yn prynu'r hawl i gael seddau am gyfnod o 5 mlynedd. Y cynnig oedd cynnwys 400 o'r 1900 o seddau yn y cynllun. Sbardunodd ddadl frwd. Roedd rhai Aelodau wedi'u siomi'n ofnadwy gan y cynllun am eu bod wedi cael ar ddeall yn sgil cyflwyniadau blaenorol

mai'r bwriad oedd rhoi'r pwyslais ar ddenu cymunedau i ymwneud â diwylliant. Gofynnwyd a ddylid ailystyried ethos y cynllun. Gofynnwyd beth fyddai pris ymaelodi â'r cynllun.
- Wrth ateb, dywedodd John Burrows mai dim ond 1-2% o gyfanswm y seddau fyddai ar gael dros gyfnod o 12 mis trwy Gynllun Urdd y Mileniwm. Byddai gofyn i unigolyn dalu £3,500 dros gyfnod o 5 mlynedd ond byddai'r gost i gorfforaeth yn nes at £5,000.
- Dywedodd y Gweinidog Diwylliant ei bod yn bwysig cofio y gofynnwyd i Ganolfan Mileniwm Cymru fynd ar ofyn y sector preifat i godi £9.65m a bod y cynllun hwn yn un ffactor yn hynny. Byddai hefyd yn helpu i gadw prisiau seddau i lawr. Ychwanegodd fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i gyfrannu £2B/bl. tuag at gostau rhedeg y Ganolfan a bod gan y Theatr Newydd a Neuadd Dewi Sant gynlluniau tebyg i gadw prisiau tocynnau'n isel.

2. Cododd aelodau'r gynulleidfa y cwestiynau canlynol:

- A fydd mwy o weithgarwch diwylliannol i bobl ifanc yn ardal Pontypridd erbyn blwyddyn nesaf?
- Pa gyngor allwch chi ei roi ifi i'm helpu i drefnu penwythnos i awduron?
- Pa ddarpariaeth sydd ar gyfer cwmni theatr proffesiynol yng Nghymru?
- A fyddai Aelodau o blaid codi proffil y Gymraeg yn y celfyddydau trwy ddatblygu'r *Parti Ponti* blynyddol fel rhan o gais Caerdydd 2008?
- Beth fydd yn cael ei wneud i ddarparu cludiant dibynadwy i fynd â'r cyhoedd (yn enwedig trigolion RCT) adref ar ôl noson mâs yng Nghaerdydd?
- Sut wnewch chi ofalu na fydd effaith economaidd Canolfan y Mileniwm yn dinistrio'r sector theatr gymunedol a theatr mewn addysg yn y cymoedd?

2. Rhoddwyd yr atebion canlynol:

- Dywedodd y Gweinidog Diwylliant y bydd yna fwy o weithgareddau diwylliannol i bawb, nid dim ond i bobl ifanc, yn sgil y cynnydd yn y gyllideb i ddiwylliant flwyddyn nesaf. Dywedodd Gareth Newton ei bod yn bwysig bod clust i wrando barn pobl ifanc a bod RCT wedi ymrwymo i ehangu a gwella'r meysydd diwylliant ac addysg. Ychwanegodd Jane Davidson bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i ystyried barn pobl ifanc wrth ddod i benderfyniadau. Dywedodd hefyd bod y ffordd y mae'r Cynulliad wedi creu partneriaethau â phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol yn unigryw a'i bod yn gobeithio y bydd gan bob ysgol yng Nghymru gyngor disgyblion erbyn Medi 2004.
- Dywedodd David Newland y dylid holi'r awdurdod lleol perthnasol am gymorth tuag at gynnal penwythnos i awduron. Cynigiodd siarad â'r holwr wedi'r cyfarfod.
- Dywedodd Jenny Randerson bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydweitho'n agos â Caerdydd 2008 ar gynyrchiadau theatr. Ychwanegodd Caerdydd 2008 bod Theatr y Sherman yn ymroi i weithio gyda phobl ifanc. Roedd David Newland yn cydnabod bod cwmni theatr Saesneg yn hir iawn yn dod a bod CCC yn edrych ar gynigion posibl i'w cynnwys yn ei gynllun 10 mlynedd.

- Cydnabuwyd bod *Parti Ponti* yn ddigwyddiad blynyddol y mae dysgwyr y Gymraeg ledled Cymru yn edrych ymlaen ato. Dywedodd Jane Davidson ei bod yn hen bryd mynd â'r digwyddiad yn ei flaen, nid fel rhan o Caerdydd 2008 yn unig ond fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol i bobl allu cefnogi'r Gymraeg. Dywedodd Caerdydd 2008 y gallai'r digwyddiad fod yn elfen a allai chwarae rhan bwysig yn eu rhaglen ac awgrymwyd bod trefnwyr y digwyddiad yn cysylltu â digwyddiadau tebyg yn yr UE.
- Roedd y panel yn gytun bod angen mynd i'r afael â'r broblem cludiant. Nodwyd bod daearyddiaeth ardal RCT yn creu problemau i gludiant cyhoeddus.
- Dywedodd John Burrows nad oes rheswm yn y byd pam ddylai Canolfan Mileniwm Cymru gael effaith andwyol ar gwmnïau a mudiadau eraill ac nad oedd y Ganolfan yn cystadlu â chwmnïau eraill am yr un adnoddau. Cyfeiriodd y Gweinidog Diwylliant unwaith eto at y cynnydd sylweddol yn y gyllideb ddiwylliant a bod rhan fawr ohoni'n mynd i theatr mewn addysg. Awgrymwyd bod CMC yn cymryd theatr mewn addysg o dan ei mantell. Ychwanegodd Jane Davidson ei bod yn ystyried a ddylai pob disgybl 13-19 oed weithio at gael cymhwyster galwedigaethol, gyda'r celfyddydau perfformio yn un o'r rhain. Nid oes llawer yn ei gynnig ar y funud ond mae cyfleoedd yn bod, a gallai cwmnïau fel Spectacle gyfrannu at ddatblygu'r agenda.

5.5 I gloi, mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r holl gyflwynwyr ac i aelodau'r gynulleidfa am symbylu trafodaeth eang ac adeiladol.

**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Dywedodd y Cadeirydd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 24 Ionawr 2003 rywle ym Mlaenau Gwent. Chwaraeon fydd pwnc y cyfarfod hwnnw.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Tachwedd 2002